

Daw cwynion Yswiriant Gwarchod Taliadau (PPI) i ben ar 29 Awst 2019

Beth fyddwch chi'n
benderfynu?



Dod i benderfyniad ynghylch eich Yswiriant Gwarchod Taliadau

Ni yw'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Ni sy'n rheoleiddio'r sector ariannol ac rydym ni yma i'ch amddiffyn chi. Mae gwybodaeth yn y daflen hon i'ch helpu i benderfynu a ddylech chi gyflwyno cwyn ynghylch Yswiriant Gwarchod Taliadau.

Mae'n debyg eich bod wedi clywed am Yswiriant Gwarchod Taliadau (Payment Protection Insurance – PPI). Cafodd mwy na 50 miliwn o bolisiâu eu gwerthu a daeth yn amlwg yn ddiweddar eu bod, yn aml, wedi cael eu cam-werthu. Mae llawer o bobl a gam-brynodd wedi cwyno a biliynau o bunnau wedi'u talu'n ôl.

Mae yna derfyn amser newydd o **29 Awst 2019** i gwyno ynghylch gwerthu polisi Yswiriant Gwarchod Taliadau. Ni fyddwch yn gallu cwyno ar ôl y dyddiad hwnnw.



Beth yw Yswiriant Gwarchod Taliadau?

Os ydych chi erioed wedi cael benthyciad, morgais, cerdyn credyd, cerdyn siop, neu wedi prynu rhywbeth ar gredyd, megis car, efallai eich bod wedi prynu Yswiriant Gwarchod Taliadau.

Polisi yswiriant yw hwn sydd i fod i dalu ad-daliadau eich dyled o dan rai amgylchiadau pe na byddech chi'n gallu gwneud hynny eich hunan. Gallai hynny fod, er enghraifft, ar ôl cael eich gwneud yn ddi-waith neu fethu â gweithio oherwydd damwain, salwch neu anabledd.

Y broses pum cam

1

Canfod a oes gennych, neu a fu gennych Yswiriant Gwarchod Taliadau

2

Penderfynu a ydych yn gymwys i gwyno

3

Os ydych eisiau cwyno, cyflwynwch eich cwyn yn uniongyrchol i'ch banc neu ddarparydd arall

4

Os bydd eich darparydd yn ystyried eich cwyn – efallai bydd yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth

5

Rhaid i'ch darparydd ymateb o fewn 8 wythnos i ddweud wrthyh a yw eich cwyn wedi bod yn llwyddiannus

Sut allaf i ganfod a oedd gen i Yswiriant Gwarchod Taliadau?

Os ydych chi erioed wedi cael benthyciad, morgais, cerdyn credyd, cerdyn siop, neu wedi prynu rhywbeth ar gredyd, megis car, efallai eich bod wedi prynu Yswiriant Gwarchod Taliadau. Efallai eich bod wedi cytuno i'w brynu neu gallai fod wedi'i ychwanegu heb i chi wybod. I ganfod hynny, gallwch un ai:

- Edrych ar eich gwaith papur, gan gynnwys y telerau a'r amodau, a datganiadau mwy diweddar i weld a yw 'PPI' neu 'yswiriant gwarchod taliadau' yn cael ei grybwyll. Efallai ei fod hefyd wedi cael ei alw'n warchodaeth benthyciad, yswiriant credyd, yswiriant ad-dalu benthyciad, yswiriant damwain, salwch a di-weithdra (ASU), gwarchod cyfrif neu warchod taliadau. Efallai bod enwau eraill arno hefyd.
- Edrych ar eich datganiadau banc i weld a oes taliad ychwanegol y nesaf at eich gwybodaeth ad-dalu.
- Os ydych chi'n dal yn ansicr, neu os nad yw'r gwaith papur gennych chi, gallwch gysylltu â'ch banc neu ddarparydd arall a gofyn a fu gennych chi erioed yswiriant gwarchod taliadau.

Mae manylion cyswllt llawer o ddarparwyr ar wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol **www.fca.org.uk/ppi** neu gallwch ffonio'r llinell gymorth ar **0800 101 8800**.

A ydw i'n gymwys i gwyno am Yswiriant Gwarchod Taliadau?

Os ydych chi'n meddwl y bu gennych chi yswiriant gwarchod taliadau, mae yna ddau reswm pam efallai, y byddwch yn penderfynu cwyno:

1. Cam-werthu Yswiriant Gwarchod Taliadau:

Cwyno fod yr yswiriant wedi'i gam-werthu i chi

2. Comisiwn a enillwyd gan ddarparrydd:

Cwyno fod eich banc neu ddarparrydd arall wedi ennill llawer iawn o gomisiwn drwy werthu'r yswiriant i chi ond nad oeddech chi wedi cael gwybod hynny ar adeg ei brynu (yn dilyn achos llys a elwir yn aml 'Plevin')

Cam-werthu Yswiriant Gwarchod Taliadau:

Mae'n debyg y cam-werthwyd yr yswiriant i chi os yw un o'r rhain yn wir:

- bod pwysau wedi cael ei roi arnoch i brynu'r yswiriant
- dywedwyd wrthyfch fod yn rhaid i chi brynu'r yswiriant
- cawsoch eich cyngori i brynu'r yswiriant ond nid oedd yn addas ar gyfer eich amgylchiadau na'ch anghenion
- cawsoch addewid y byddai'r ad-daliadau'n rhatach pe byddech yn prynu'r yswiriant



- dywedwyd wrthy ch y byddai'ch benthyciad neu gais am gredyd yn debycach o gael ei dderbyn pe byddech yn prynu'r yswiriant
- cafodd yr yswiriant ei ychwanegu heb i chi wybod
- roeddech yn hunan gyflogedig, yn ddi-waith neu wedi ymddeol pan gynghorwyd chi i brynu'r yswiriant
- roedd gennych eisoes gyflwr meddygol ar adeg prynu'r yswiriant
- cawsoch eich cynghori fod y cyflwr meddygol oedd eisoes yn bodoli wedi'i gynnwys yn eich polisi Yswiriant Gwarchod Taliadau (neu cawsoch eich cynghori nad oedd wedi'i gynnwys)
- ni wnaethpwyd yn glir y byddech yn talu llogau ar yr yswiriant pe byddai'n cael ei ychwanegu at eich benthyciad
- ni wnaethpwyd yn glir bod yr yswiriant yn dod i ben cyn ad-dalu'r benthyciad neu'r credyd

Gallai'r yswiriant fod wedi'i gam-werthu mewn ffyrdd eraill. Os ydych chi'n dal yn ansicr, dylech gysylltu â'n llinell gymorth ar **0800 101 8800**.



Comisiwn a enillwyd gan ddarparydd

Rydym wedi cyflwyno rheolau newydd sy'n golygu fod yn rhaid i fanciau a darparwyr eraill ystyried cwynion ynglŷn â'r comisiwn y maen nhw wedi'i ennill o Yswiriant Gwarchod Taliadau. Daeth y rheolau hyn yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys yn *Plevin v Paragon Personal Finance Limited*.

Mae'n golygu efallai eich bod, erbyn hyn, yn gallu cwyno os ydych yn meddwl fod eich banc neu ddarparydd arall wedi ennill comisiwn mawr o'ch yswiriant ac na soniwyd am hyn wrthych chi ar adeg ei brynu.

Mae'n golygu ei bod yn bosibl y cewch rywfaint o arian yn ôl, hyd yn oed os nad oedd yr yswiriant wedi'i gam-werthu. Os ydych wedi cyflwyno cwyn cam-werthu o'r blaen, sydd wedi'i gwrthod, efallai y byddwch yn gallu cyflwyno math newydd o gŵyn.

Ydych chi eiso es wedi cwyno am gam-werthu Yswiriant Gwarchod Taliadau?



Naddo

Dylech ystyried a allai Yswiriant Gwarchod Taliadau fod wedi'i gam-werthu i chi. Bydd eich darpar ydd yn ystyried y comisiwn a gafodd fel rhan o gŵyn cam-werthu hyd yn oed os nad ydych chi'n sôn am hynny.



Do

Cafodd eich cwyn ei gwrthod

Efallai gallwch gyflwyno math newydd o gŵyn am y comisiwn a enillwyd gan fanc neu ddarpar ydd arall - cysylltwch â'ch darpar ydd.



Roedd eich cwyn yn llwyddiannus ac ad-dalwyd rhan neu'r cyfan o'ch arian

Ni fyddwch yn cael rhagor o arian yn ôl os ydych yn cwyno eto am y comisiwn a enillwyd o werthu'r un polisi Yswiriant Gwarchod Taliadau. Mae hynny oherwydd bod eich colled wedi'i had-dalu'n llwyr ac nad oes ragor i'w hawlio.



Rydych wedi cwyno am gam-werthu Yswiriant Gwarchod Taliadau ers diwedd 2015

Dylai eich darpar ydd fod eiso es wedi sôn wrthy ch yn ysgrifenedig y byddai'r comisiwn a enillwyd yn cael ei ystyried fel rhan o'ch cwyn – edrychwch ar waith papur eich cwyn neu cysylltwch â'ch darpar ydd os nad ydych yn siŵr.

3

Sut allaf i gyflwyno cwyn?

Os oedd gennych chi Yswiriant Gwarchod Taliadau, gallwch gyflwyno cwyn eich hunan, a hynny'n rhad ac am ddim. Does dim rhaid i chi anfon unrhyw ddogfennau gyda'ch ffurflen gŵyn. Dylech gwyno'n uniongyrchol wrth eich banc neu ddarparydd arall naill ai:



dros y ffôn – gallwch ffonio'ch darparydd ac egluro eich bod eisiau cyflwyno cwyn Yswiriant Gwarchod Taliadau



trwy'r post – gallwch lawr lwytho ffurflen gwyno o wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar **www.fca.org.uk/ppi** a'i phostio at eich darparydd



arlein – gallwch lenwi ffurflen gwyno llawer o ddarparwyr ar eu gwefan



mewn cangen – gallwch fynd at eich cangen leol ac egluro eich bod eisiau cyflwyno cwyn Yswiriant Gwarchod Taliadau

Cwmnïau Hawliadau

Efallai bydd cwmni hawliadau (neu gwmni rheoli hawliadau) yn cysylltu â chi yn cynnig eich helpu i gyflwyno cwyn Yswiriant Gwarchod Taliadau. Mae'r rhain yn debyg o godi ffi arnoch am eu gwasanaeth trwy gymryd canran o unrhyw arian y byddwch yn ei dderbyn. Os byddwch yn penderfynu defnyddio cwmni hawliadau, gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u hawdurdodi ar Gofrestr Busnes Awdurdodedig y Weinyddiaeth Gyfiawnder a hefyd eich bod yn deall faint fydd hynny'n ei gostio i chi.

4

Bydd eich darparrydd yn edrych i mewn i'ch cwyn – efallai bydd yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth. Mae'n bwysig, felly, eich bod yn nodi eich manylion cyswllt ar eich ffurflen gŵyn.

5

Mae'n rhaid i'ch darparrydd ymateb o fewn 8 wythnos i ddweud wrthydd a yw eich cwyn yn llwyddiannus a bod arian yn daladwy i chi, neu i egluro pam bod angen rhagor o amser i edrych i mewn i'ch cwyn.

Os nad ydych yn fodlon gyda'r ymateb terfynol y byddwch yn ei dderbyn oddi wrth eich darparrydd, neu nad ydych yn cael ymateb o fewn 8 wythnos, gallwch gwyno wrth y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol ar 0800 023 4567.

Mae'r daflen hon ar gael mewn fformatau eraill ac mewn gwahanol ieithoedd. Os hoffech ragor o wybodaeth neu fformat arall:

ewch i'n gwefan

www.fca.org.uk/ppi

neu ffoniwch ein llinell gymorth ar

0800 101 8800

neu ffôn testun

18001 01434 372 580



Fersiwn 01

© Financial Conduct Authority 2017

Cedwir pob hawl